thalentau pobl yn gyrru economi ffyniannus a chymunedau cryf. Mae gweithlu medrus yn galluogi cyflogwyr lleol i dyfu a llwyddo, tra'n denu busnesau newydd sy'n cydnabod gwerth potensial y rhanbarth.

**Cyllideb 2025/26**

Mabwysiadodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ei gyllideb ar gyfer 2025/26 yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2025 ac mae ar gael yn: Rhaglen ar gyfer Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar Dydd Gwener, 17eg Ionawr, 2025, 1.30 y.h.

Cymeradwywyd cyllideb Cynllun Twf Gogledd Cymru ar gyfer 2025/26 gan Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru cyn y trosglwyddiad ar 14 Chwefror 2025: Rhaglen ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar Dydd Gwener, 14eg Chwefror, 2025, 9.30 y.b.

**Perfformiad 2025/26**

Mae gan y CBC drefniadau cadarn o adrodd ar berfformiad ar gyfer pob un o'i gyfrifoldebau, gan gynnwys:

- Adroddiadau perfformiad chwarterol ar Cynllun Twf Gogledd Cymru, gydag adroddiadau perfformiad a risg yn cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ac yna'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â Phwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol.
- Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Cyd-Bywllgor Corfforedig y Gogledd i'r CBC yn flynyddol.
- Diweddariad chwarterol ar y Parth Buddsoddi i'r Bwrdd Cynghori a'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.
- Adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Datblygu Strategol i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol.
- Adroddiadau bob dwy flynedd ar berfformiad, canlyniadau a gofynion adnoddau i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

Mae'r adroddiadau hyn ar gael yn Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru

**Perfformiad Ariannol 2025/26**

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 10 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £9,383k yn ystod 2025/26, gyda'r sefyllfa net yn £49k.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2025/26 i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 19 Mehefin 2026 ac mae ar gael yn:
  Rhaglen ar gyfer Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar Dydd Gwener, 19eg Mehefin, 2026, 1.30 y.h.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 10 a 11 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

## TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a cheir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | **Cyllideb £'000** | **Gwir £'000** | **Gwahaniaeth £'000** |
|---|---|---|---|
| Gwariant ar Weithrediadau | 5,389 | 6,282 | 893 |
| Ariannwyd gan- | | | |
| Cyfraniadau'r Partneriaid | (818) | (818) | 0 |
| Ardoll | (902) | (902) | 0 |
| Grantiau, chyfraniadau ac incwm eraill | (2,619) | (5,467) | (2,848) |
| Cyfraniad o gronfa | (1,050) | (705) | 345 |
| **(Tanwariant)/Gorwariant Net** | **0** | **(1,610)** | **(1,610)** |

## DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2024/25 | | | | 2025/26 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler Nodyn 9)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler Nodyn 9)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 325 | 0 | 325 | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | 415 | (7) | 408 |
| 34 | 0 | 34 | Cynllunio Strategol | (6) | (1) | (7) |
| 160 | 0 | 160 | Trafnidiaeth Rhanbarthol | 65 | (1) | 64 |
| 0 | 0 | 0 | Cynllun Twf | (54) | (241) | (295) |
| 83 | 0 | 83 | Parth Buddsoddi | (12) | (1) | (13) |
| 0 | 0 | 0 | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol | (95) | (13) | (108) |
| **602** | **0** | **602** | **Cost Gwasanaethau** | **313** | **(264)** | **49** |
| (57) | 0 | (57) | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (2,347) | 412 | (1,935) |
| (765) | 0 | (765) | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (902) | (8,865) | (9,767) |
| **(220)** | **(0)** | **(220)** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(2,936)** | **(8,717)** | **(11,653)** |
| | | | | | | |
| (893) | | | Balans Agoriadol | (1,113) | | |
| 0 | | | Addasiad Trosglwyddiad | (8,024) | | |
| (893) | | | Balans Agoriadol wedi'i ailddatgan | (9,137) | | |
| (220) | | | (Gweddill)/Diffyg yn y Flwyddyn | (2,936) | | |
| **(1,113)** | | | Balans Cau | **(12,073)** | | |

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda chynnydd net o £1,869k.

| Nodyn | 2025/26 | Balans 31 Mawrth 2025 £'000 | Addasiad Trosglwyddiad £'000 | Balans 1 Ebrill 2025 £'000 | Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd £'000 | mewn £'000 | allan £'000 | Balans 31 Mawrth 2026 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10.1 | CBC | (1,113) | 0 | (1,113) | 0 | (21) | 565 | **(569)** |
| 10.2 | Cynllun Twf - Cronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd | 0 | (211) | (211) | 0 | 0 | 0 | **(211)** |
| 10.3 | Cynllun Twf - Cronfa Prosiectau | 0 | (29) | (29) | 0 | (123) | 0 | **(152)** |
| 10.4 | Cynllun Twf - Cronfa Llog | 0 | (4,733) | (4,733) | 0 | (331) | 0 | **(5,064)** |
| 10.5 | Cynllun Twf - Cronfa Adnoddau | 0 | (2,800) | (2,800) | 0 | (1,636) | 79 | **(4,357)** |
| 10.6 | Cynllun Twf - Cyfrif Dal Llog | 0 | 0 | 0 | 0 | (307) | 0 | **(307)** |
| 10.7 | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol | 0 | (251) | (251) | 0 | (95) | 0 | **(346)** |
| | **Cyfanswm** | **(1,113)** | **(8,024)** | **(9,137)** | **0** | **(2,513)** | **644** | **(11,006)** |

10.1 CBC - i gefnogi cyllidebau'r blynyddoedd i ddod ar gyfer swyddogaethau'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllunio Strategol.

10.2 Cynllun Twf - Cronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd - i gefnogi cyllidebau'r blynyddoedd i ddod a strwythur staffio y Swyddfa Rheoli Portffolio.

10.3 Cynllun Twf - Cronfa Prosiectau - i ariannu gwariant sydd yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

10.4 Cynllun Twf Cronfa Llog - i ariannu cost benthyca yn y dyfodol.

10.5 Cynllun Twf - Cronfa Adnoddau - i ariannu gofynion y llywodraeth, costau datblygu prosiectau a chadw capasiti y Swyddfa Rheoli Portffolio.

10.6 Cynllun Twf - Cyfrif Dal Llog - i ddal llog sydd wedi cronni ar fenthyciadau sy'n daladwy yn y tymor hir.

10.7 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol - i gefnogi cyllidebau ac ymrwymiadau yn y maes sgiliau yn y blynyddoedd i ddod.

## NODYN 11 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| 2024/25 £'000 | | 2025/26 £'000 |
|---|---|---|
| 0 | Llog net yr ymrwymiadau/(asedau) buddion diffiniedig net | (5) |
| (57) | Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (2,225) |
| 0 | Lwfansau colled ar offerynnau ariannol | 295 |
| **(57)** | **Cyfanswm** | **(1,935)** |

## NODYN 13a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### (ii) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r ymrwymiadau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| **Ymrwymiadau Ariannol** | **Tymor Hir** | | **Tymor Byr** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2026** | **31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2026** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| *Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Dyledion masnachol | 0 | 0 | 305 | 805 |
| **Cynhwyswyd o fewn Credydwyr *** | **0** | **0** | **305** | **805** |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **0** | **0** | **305** | **805** |

** Mae llinell credydwyr tymor byr ar y Fantolen yn cynnwys £4,720,000 (2024/25: £94,000) o gredydwyr (Nodyn 16) nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ymrwymiad ariannol.*

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| **Asedau Ariannol** | **Tymor Hir** | | **Tymor Byr** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2026** | **31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2026** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm | 0 | 0 | 0 | 34,000 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 0 | 89 |
| Lwfans colled | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **0** | **0** | **0** | **34,089** |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm | 0 | 0 | 1,421 | 2,260 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 5 | 3 |
| Lwfans colled | 0 | 0 | 0 | (1) |
| *Ar werth teg drwy elw a cholled:* | | | | |
| Gwerth teg | 0 | 0 | 0 | 20,000 |
| **Cyfanswm Arian a Chywerthoedd Arian** | **0** | **0** | **1,426** | **22,262** |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm | 0 | 8,865 | 0 | 0 |
| Llog cronedig | 0 | 306 | 0 | 0 |
| Lwfans colled | 0 | (294) | 0 | 0 |
| Derbyniadau Masnachol | 0 | 0 | 0 | 37 |
| **Cynhwyswyd o fewn Dyledwyr *** | 0 | **8,877** | **0** | **37** |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **0** | **8,877** | **0** | **56,388** |

** Mae llinell tymor byr dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £23,501,000 (2024/25: £0) o ddyledwyr (Nodyn 14) nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol. Mae'r balans o £8,877,000 o ddyledwyr tymor hir yn ymwneud â benthyciad a ddarparwyd fel rhan o brosiect Cynllun Twf Cydnerth.*

## NODYN 27 – COSTAU PENSIWN (parhad)

trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

| **Newid mewn Gwerth Teg Ymrwymiad Net** | **(Ymrwymiadau) /asedau net** |
|---|---|
| | **31 Mawrth 2026** |
| | **£'000** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 3,046 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | (2,072) |
| Effaith y nenfwd asedau | (974) |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **0** |
| Cost Gwasanaeth | |
| - Cost gwasanaeth cyfredol* | (133) |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **(133)** |
| Llog Net | |
| - Incwm llog ar asedau'r cynllun | 189 |
| - Cost llog ar ymrwymiad buddion a ddiffinnir | (127) |
| - Llog ar effaith y nenfwd asedau | (57) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **5** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **(128)** |
| Llif Arian | |
| - Cyfraniadau y cyflogwr | 275 |
| **Sefyllfa Cau y Disgwylir** | **147** |
| Ail Fesuriadau | |
| - Newid mewn tybiaethau demograffig | (5) |
| - Newid mewn tybiaethau ariannol | 123 |
| - Profiadau eraill** | (17) |
| - Enillion ar asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net | 150 |
| - Newidiadau mewn effaith y nenfwd ased | (398) |
| **Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **(147)** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 3,764 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | (2,335) |
| Effaith y nenfwd asedau | (1,429) |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth** | **0** |

** Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.6% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.*
*** Mae'r profiadau eraill yn cynnwys lwfans o £17,000 ar gyfer effaith gorchymyn cynnydd pensiwn Ebrill 2026.*

### Asedau ac ymrwymiadau pensiwn a gydnabyddir yn y Fanolen

Mae'r swm a gynhwyrsir yn y Fantolen sy'n codi o ymrwymiad y Cyd-Bwyllgor Corfforedig mewn perthynas â'i gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| | **31 Mawrth 2026 £'000** |
|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 3,764 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | (2,335) |
| **Is-gyfanswm** | **1,429** |
| Effaith SCRh 19/ PDAARh 14 | (1,429) |
| **Ased/ (Ymrwymiad) Net Yn Deillio o Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir** | **0** |

